

Cronfa Gymdeithasol Ewrop Gorllewin Cymru a'r Cymoedd: Adroddiad Gweithredu Blynnyddol 2016

Atodiad 1: Crynodeb i Ddinasyddion

Trosolwg

Mae Cymru'n elwa ar oddeutu €2.4 biliwn o gyllid yr UE drwy bedair Rhaglen y Cronfeydd Strwythurol ar gyfer y cyfnod 2014-2020. Mae hyn yn cynnwys oddeutu €800 miliwn o dan Gronfa Gymdeithasol Ewrop Gorllewin Cymru a'r Cymoedd er mwyn helpu i gyflawni twf economaidd drwy hyrwyddo lefelau uchel o gyflogaeth gynaliadwy, gan ddatblygu gweithlu medrus ac ymatebol i Gymru yn awr ac ar gyfer y dyfodol.

Mae'r Rhaglen wedi ei rhannu yn bedwar maes blaenoriaeth:

Blaenoriaeth 1: Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy

Blaenoriaeth 2: Sgiliau Twf

Blaenoriaeth 3: Cyflogaeth a Chyflawniad Pobl Ifanc

Blaenoriaeth 4: Cymorth Technegol

Dyma'r ail Adroddiad Gweithredu Blynnyddol ar gyfer Rhaglen Cronfa Gymdeithasol Ewrop Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Mae'n ymwneud â'r flwyddyn adrodd 2016.


Prif gyflawniadau yn 2016

- Erbyn diwedd 2016 roedd €624 miliwn o gyllid yr UE wedi ei fuddsoddi mewn 45 o brosiectau i gefnogi cyflogaeth a chynyddu sgiliau, gan symblu cyfanswm buddsoddiad o ychydig mwy nac €1 biliwn yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd.
- Llwyddodd Swyddfa Gyllid Ewropeaidd Cymru i gyflawni ei tharged ymrwymo o 60% ym mhob un o'r Rhaglenni er mwyn helpu i sicrhau y gwneir y defnydd gorau o holl gyllid yr UE cyn i'r DU adael yr UE.
- Cefnogwyd mwy na 35,000 o bobl, ac enillodd 1,600 o'r rhain gymwysterau.
- Ym mis Hydref, llwyddodd pedair merch o Ysgol Uwchradd Dinbych a oedd yn cymryd rhan yng nghynllun STEM Cymru i ennill tair gwobr yng nghystadleuaeth derfynol Fformiwla 1 mewn Ysgolion a gynhaliwyd yn Texas.
- Cafodd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ei dynodi yn Awdurdod Rheoli ac Ardystio y Cronfeydd Strwythurol ar gyfer 2014-2020.

Cynnydd Ariannol

Mae'r siart canlynol yn dangos, fesul Blaenoriaeth, cyfanswm cyllid yr UE sydd wedi ei ddyrannu, faint sydd wedi ei fuddsoddi mewn prosiectau, a faint sydd wedi ei wario gan y prosiectau.

Siart 1: Cyllid yr UE: Cyllideb, Cymeradwywyd a Gwariwyd



Prosiectau a gymeradwywyd hyd at ddiwedd 2016

Mae disgrifiad o'r prosiectau a gymeradwywyd o dan bob Blaenoriaeth Rhaglen ac astudiaethau achos ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru www.gov.wales/eu-funding

Blaenoriaeth 1 – Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy

Erbyn diwedd 2016, roedd 64% o ddyraniad y Flaenoriaeth wedi ei ymrwymo i 10 prosiect. Yn ystod 2016 cymeradwywyd tri phrosiect newydd a chadarnhawyd cyllid ychwanegol ar gyfer nifer o'r prosiectau a oedd eisoes yn bodoli. Er enghraifft, caiff cynllun ReACT Llywodraeth Cymru, a gymeradwywyd yn 2015 i roi cefnogaeth i bobl a fu'n ddi-waith ers cyfnod byr, ei ehangu i gynnwys, o 2018 ymlaen, cynnig cymorth i bobl a fu'n ddi-waith ers cyfnod byr sydd â dim neu ychydig iawn o sgiliau neu gyflwr iechyd neu anabledd sy'n effeithio ar eu gallu i weithio. Cynigwyd cymorth ychwanegol i'r rhai a fu'n ddi-waith yn yr hirdymor ac i'r bobl hynny oedd yn economaidd anweithgar yn ystod y cyfnod hwn. Bydd y prosiectau rhanbarthol y mae'r Awdurdodau Lleol yn eu harwain, Pontydd i Waith, Gweithffyrdd+ ac OPUS yn ategu'r prosiectau ehangach sy'n berthnasol i Gymru gyfan er mwyn darparu ar gyfer y bobl hynny sydd bellaf o'r farchnad waith.

Cefnogwyd mwy na 4,000 o bobl ym mhob agwedd ar y flaenoriaeth erbyn diwedd 2016. Er bod y ffigur hwn ychydig yn llai na'r disgwyl, mae'n adlewyrchu nid yn unig yr her o ymwneud â grwpiau targed anoddach eu cyrraedd sy'n sylfaen i amcan y flaenoriaeth hon, ond hefyd marchnad lafur sy'n gwella'n gyflym. Mae hefyd yn adlewyrchu'r gwaith mwy dwys a hirdymor sydd ei angen ar grwpiau anoddach eu cyrraedd.

Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn parhau i drafod gyda'r bobl berthnasol er mwyn helpu i sicrhau y cyflawnir y targedau ar gyfer y rheini sydd wedi eu tangyflogi, a bydd yn gwahodd mwy o gynigion yn y maes hwn yn 2017.

Blaenoriaeth 2: Sgiliau Twf

Erbyn diwedd 2016, roedd mwy na 91% o ddyraniad y Flaenoriaeth wedi ei ymrwymo i 16 o brosiectau. Cafodd deg prosiect eu cymeradwyo yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys nifer o brosiectau rhanbarthol dan arweiniad y sectorau Addysg Uwch ac Addysg Bellach. Dyfarnwyd rhagor o gyllid yr UE i gynllun Prentisiaethau Llywodraeth Cymru i gefnogi 58,300 o bobl ychwanegol. Cynigiwyd cefnogaeth sgiliau i bobl mewn gwaith gan y sector Addysg Bellach yn ardal y Rhaglen drwy gadarnhau prosiectau Sgiliau ar gyfer Diwydiant 2 (De Orllewin Cymru), Uwchsgilio@Waith (De Ddwyrain Cymru) ac SEE (Gogledd Cymru).

Roedd mwy na 22,700 o bobl wedi cael cymorth gan brosiectau a oedd yn rhan o'r Flaenoriaeth hon, sy'n dangos y cynnydd da a wnaed yn ystod y flwyddyn. Mae'r ffaith bod nifer llai na'r disgwyl o bobl wedi ennill cymwysterau yn adlewyrchu cylchredau amser asesu ac ardystio a'r flwyddyn academiaidd; mae disgwyl y bydd mwy o ganlyniadau felly yn 2017.

Mae nifer y graddedigion sy'n cymryd rhan ac yn cofrestru i wneud gwaith ymchwil ôl-raddedig yn llai na'r disgwyl. Mae'n bosibl bod hyn yn adlewyrchu natur fwy newydd y math hwn o fuddsoddiad sef bod gweithgarwch yn gyfyngedig i feysydd

'her fawr' y cynllun 'Gwyddoniaeth i Gymru'. Mae'r canlyniadau (er enghraifft, graddau doethuriaeth) yn cymryd blynyddoedd lawer i'w cyflawni. O ystyried y ffactorau hyn, ymddengys bod y targed yn rhy uchel, a bydd yn cael ei addasu.

Blaenoriaeth 3: Cyflogaeth a Chyflawniad Pobl Ifanc

Erbyn diwedd 2016, roedd 74% o ddryniad y Flaenoriaeth wedi ei ymrwymo i 13 o brosiectau. Drwy adeiladau ar y prosiectau craidd a gymeradwywyd yn 2015, cafodd wyth prosiect eu cymeradwyo yn ystod 2016. Roedd hyn yn cynnwys prosiectau gan Lywodraeth Cymru megis Ysbrydoli i Weithio, TRAC 11-24 a Chymru Iach ar Waith (Gwasanaeth Di-waith; 16-24). Yn ystod hanner olaf 2016 rhoddwyd estyniad i sawl prosiect craidd gan gynnwys y prosiectau Hyfforddeiaethau a Chymunedau dros Waith y mae Llywodraeth Cymru yn eu harwain, i gynnig cefnogaeth y tu hwnt i 2018.

Gwnaed cynnydd sylweddol o ran lleihau nifer y bobl nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant, wrth i fwy na 10,000 o bobl ifanc dderbyn cymorth erbyn diwedd 2016. Mae data rhagolygol ynglŷn â phrosiectau cymeradwy yn parhau i fod yn uchel a dylai hyn alluogi prosiectau newydd i ganolbwyntio ar feysydd arbenigol a materion penodol. Mae targedu pobl sydd mewn perygl o fod yn unigolion nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant yn faes gwaith newydd ac arloesol. Bydd y prosiectau ymyrraeth gynnar hyn o dan arweiniad Awdurdodau Lleol yn cefnogi rhai o'r bobl ifanc mwyaf agored i niwed yn y system addysg. Mae arwyddion cynnar yn dangos y gwneir cynnydd da i fynd i'r afael ag anghenion cymhleth y bobl ifanc hyn.

Mae nifer y bobl sy'n dewis astudio pynciau STEM yn dangos y gwneir cynnydd da o ran ennyn brwdfrydedd pobl ac mae'r canlyniadau fel y disgwylir iddynt fod wrth i'r bobl ifanc fynd drwy'r system addysg a chael cymorth ymyrraethau. Bu'r gwaith ym maes gweithlu gofal plant y blynyddoedd cynnar yn arafach na'r disgwyl wrth i unigolion ei chael hi'n eithriadol o anodd dod o hyd i'r amser fynd i'r hyfforddiant, yn enwedig lle cai hwnnw ei gyflwyno gan ddarparwr unigol.

Blaenoriaeth 4: Cymorth Technegol

Erbyn diwedd 2016 roedd holl gyllid yr UE ar gyfer y Flaenoriaeth hon wedi ei ymrwymo. Roedd hyn yn cynnwys cymeradwyo'r pedwar 'Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol' (Gogledd Cymru, Canolbarth Cymru, Bae Abertawe a De-ddwyrain Cymru) er mwyn helpu i gefnogi agweddau rheoli a darparu'r Rhaglen drwy sicrhau darpariaeth ranbarthol integredig a mwy o flaenoriaethu economaidd mewn cysylltiad â'r prosiectau. Mae'r Tîmau Ymgysylltu Rhanbarthol hefyd yn gweithio gyda'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i brawfesur ac ymgysylltu â phrosiectau Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop yn ranbarthol. Tua diwedd 2016 cymeradwywyd prosiect Cymorth Technegol WEFO hefyd er mwyn helpu i reoli gweithrediad y rhaglen yn llwyddiannus.